

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 13eg o Hydref 2021 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Catrin Jones, Arfon Hughes, Idris Jones, Berwyn Harding, Geraint Morgans, Sion Alun Roberts, Robin Hughes, Rhys Davies, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan Cyng. John P Jones.
2. Nodwyd gyfle i dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd. Nid oedd neb yn bresennol felly fe symudwyd ymlaen gyda'r cyfarfod.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Fedi ar gynnig y Cyng Berwyn Harding a'i eilio gan y Cyng. Catrin Jones. Cadarnhawyd hefyd y rhan gaeedig o'r cyfarfod ar gynnig Cyng. Catrin Jones a'i eilio gan Cyng. Berwyn Harding.
4. Materion yn codi
 - a) **Materion Prifffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd ers y tro diwethaf. Nid oedd ymateb o'r Uned Cefnffyrdd. Nodwyd fod problem dwr yn parhau ar Bwlch y Groes, a bod disgwyl ymateb pellach gan Adran Bwrdeisrefrol Cyngor Gwynedd ynglyn a Maes Parcio yn y Plas.
 - b) **Giat ar Bont Dolybont** – adroddwyd gan y Cyng Hedd Pugh fod cyfarfod wedi ei gynnal ar y safle gyda Peter Rutherford a bod hyn mewn llaw.
 - c) **Is-Bwyllgor Cyllid** – cadarnhawyd gynnwys y nodiadau (a oedd yn cynnwys argymhellion) fel rhai cywir ar gynnig Arfon Hughes a'i eilio gan Geraint Morgans, sef .
 - Mabwysiadu y cylch gorchwyl
 - Mabwysiadu y polisi rhoddion
 - Argymell cadw cydnabyddiaeth y Clerc ar gyfer 2021-22 ar yr un raddfa a 2020-21.
Roedd y cyfan o'r nodiadau uchod wedi eu danfon i Gynghorwyr Mawddwy, a thrafodwyd rhai materion er mwyn cael eglurhad.
 - d) **Sedd wag** – ward Mawddwy. Nodwyd fod dau enw ymlaen, sef Eirian Wyn ac Ynyr Pugh. Adroddodd y Clerc ganllawiau o ran y pleidleisio a oedd i law gan Un Llais Cymru. Yn dilyn hyn cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Hedd Pugh a Catrin Jones. Ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Sion Alun Roberts, penodwyd Cyng Berwyn Harding yn Gadeirydd y rhan yma o'r cyfarfod. Yn dilyn hyn, gadawodd y Cadeirydd Hedd Pugh a'r Is-Gadeirydd Catrin Jones yr ystafell. Penderfynwyd ymhellach, ar gynnig Rhys Davies a'i eilio gan Geraint Morgans, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, i gynnal y bleidlais ar babur. Datgelwyd mai Ynyr Pugh oedd yr enillydd, a chafodd ei longyfarch.
 - e) **Coeden mynwent Mallwyd** – nodwyd ohebiaeth gan Miriam Beecroft, sef bod un amcangyfrif i law, a bod disgwyl un amcangyfrif arall cyn penderfynnu. Byddai y gost yn cael ei rannu gyda'r Eglwys. Penderfynwyd y gellir dirprwyo'r gwaith o ddewis y pris gorau i'r Cadeirydd a'r Clerc.
 - f) **Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail-gartrefi** – eglurwyd cynnwys y papur ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru, ac roedd cefnogaeth i ymateb Cyngor Gwynedd ar y mater, a oedd yn codi premiwm 100% ar dai gwag ac ail-gartrefi esioes.
 - g) **Trefniadau Sul y Cofio** – dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Parch Miriam Beecroft, ac roedd Parch Jen Evans wedi cytuno i gymryd y gwasanaeth. Nodwyd hefyd ohebiaeth gan y Cyng John P Roberts (Cyngor

Gwynedd) yn nodi fod y trefniadau mewn llaw ganddo fel arfer, a gadawyd y mater yn nwylo Cyngorydd John P Roberts. Byddai Cadeirydd y Cyngor Cymuned Hedd Pugh yn cymryd rhan a chyflwyno torch. Roedd Arwyn Evans wedi tacluso safle y gofgolofn a diolchwyd yn fawr iawn iddo. Roedd y Clerc wedi siarad gyda Derrick Davies ynglyn a tacluso llythrennau y gofgolofn, ac roedd y mater mewn llaw.

- h) **Yr Hen Fynwent** – trafodwyd yr angen I gael cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor yma, a phenderfynwyd y dylid gwahodd y rhai sydd a diddordeb mewn dod yn ymddiroedolwyr yn y lle cyntaf.

5. Materion Cynllunio

Adroddwyd fod tri cais wedi eu cylchredeg I holl Gynghorwyr Mawddwy eisoes, sef;

NP5/74/28A – Trosi cyn feudy yn annedd – Pant Llanymawddwy

Penderfynwyd cefnogi y cais. Roedd yn braf gweld hen adeiladau yn cael eu gwella, roedd yn gyfle I ffermwyr arallgyfeirio, ac roedd hyn yn gwella economi'r ardal. Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyng Sion Alun Roberts pan drafodwyd hyn, a gadawodd yr ystafell.

NP5/74/410A – cyflwyno manylion yn weddill yn dilyn Caniatad Cynllunio NP5/74/410 dyddiedig 20/07/2007 a NP5/74/PIAW410 dyddiedig 8/12/2010 – Tir ger Y Llwyn, Dinas Mawddwy.

Adroddwyd am gynnwys e-bost o'r 4ydd Hydref gan y Parc Cenedlaethol, a phenderfynwyd y gellir cefnogi hyn.

NP5/74/L199E – Dyluniad diwygiedig I'r annedd a ganiatawyd o dan gyfeirnod NP5/74/L199C dyddiedig 15/12/2015 – Yr Hen Efail, Dinas Mawddwy

Adroddwyd am e-bost gan y Parc Cenedlaethol am hyn, a chytunwyd I gefnogi. Hefyd roedd rhaid gwneud yn siwr nad oedd yna amharu ar lwybr cyhoeddus ar y safle.

Yng nghyswllt cynllunio, adroddwyd am e-bost I law gan Howard Huws ar ran Cylch yr Iaith a oedd yn dwyn sylw cynghorwyr y gellir gwrthwynebu ceisiadau ar sail y perygl I'r iaith Gymraeg. Gofynnwyd I'r Clerc ddanfôn yr e-bost allan I bawb o Gynghorwyr Mawddwy.

6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balans y cyfrifon sef Cyfri Cyfredol £10308.43, Cyfri Claddedigaeth £2,320.24 Cyfri Cadw £768.68. (atgoffwyd nad oedd dim cydnabyddiaeth y Clerc wedi ei dalu hyd yma o fewn y flwyddyn ariannol). Roedd mandad y banc bellach wedi ei newid i adlewyrchu swyddogion newydd. Cyfeiriwyd yn fyr at sefyllfa gwariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb, a oedd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd.

b) Nodwyd infois i law gan Hannah Gwenllian Jones sydd yn cynnal gwefan y Cyngor Cymuned, am gyfanswm o £250, a chytunwyd i dalu hyn.

c) Nodwyd infois i law gan Gyngor Gwynedd am wasanaeth archwilio mewnol am £210, a chytunwyd i dalu hyn.

d) Nodwyd nad oedd y premiwm ychwanegol ar ail-gartrefi, sef £620, wedi ei dderbyn hyd yma, (fyddai yn cynyddu ein praesept i £10,120) ac roedd y Clerc wedi atgoffa Cyngor Gwynedd am hyn.

e) Roedd yr Archwilydd Allanol wedi cadarnhau fod oedi gyda gwaith Cyfrifon 2020-21 oherwydd Covid, ac roedd neges yr Archwilydd Allanol wedi ei roi ar y wefan a'r hysbysfwrdd yn rhoi gwybodaeth am hyn.

7. Gohebiaeth.

a) Cyfeiriwyd at e-bost gan Lisa ac Ian Allsop a oedd wedi ei ddsbarthu i bawb yn gofyn am gopiau o'r rhaglen a chofnodion ein cyfarfodydd fel Cyngor yn yr iaith Saesneg ers mis Ebrill. Roedd ymholiadau gyda Un Llais Cymru wedi eu gwneud, ac roeddynt yn cadarnhau y dylid yn y lle cyntaf gynnig 'Google translate'. Ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng. Geraint Morgans, a gyda chefnogaeth unfrydol, cytunwyd i hyn, a byddem yn rhoi hyn ar y wefan. Pwysleisiwyd fodd bynnag mai y fersiwn gymraeg oedd yn cael ei ystyried yn fersiwn swyddogol o waith y Cyngor, ac hefyd y dylid dweud fod rhaid egluro gyda'r cyfeiriad at 'google translate' nad oedd hyn yn gwbwl gywir bob tro. Yn y cyswllt hyn, mynegwyd teimladau cryf gan y Cyng Berwyn Harding am yr hyn a oedd yn ymddangos yn ymdrechion yn y cefndir i gael unigolion di-gymraeg i mewn i waith ac i gyswllt a'r Cyngor, ac roedd hyn yn siom ddirfawr o gofio bod yna ymladd mor galed i gadw corff fel y Cyngor Cymuned i weithio drwy'r Gymraeg. Cyfeiriodd at y Cyng Arfon Hughes a'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) yn y cyswllt yma, bod cuddio tu ol i e-byst rhwng cyfarfodydd a oedd yn gwneud gwaith aruthrol i'r Clerc. Dywedwyd fod hyn yn mynd yn groes i beth a benderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf fod pawb yn unfarn i roi llinell dan yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol a symud ymlaen i gydweithio er lles y gymuned. Dywedodd y Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) yn gryf ei fod yn gwadu yn gyfangwbl gofyn i neb di-gymraeg ddod i mewn i'r Cyngor. Atgoffwyd y Cyng J P Roberts gan y Cadeirydd Cyng Hedd Pugh nad oedd ef yn aelod o Gyngor Mawddwy, ac nad oedd felly a hawl i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth.

Yna aethpwyd ymlaen i gyfeirio at lythyr sensitif a oedd gyda chyfeiriadau personol i un o aelodau'r Cyngor wedi dod i law. Cyn mynd ymlaen i ddarllen y llythyr, cafwyd awgrym y dylid gwneud y rhan yma o'r cyfarfod yn gaeedig i aelodau Cyngor Mawddwy yn unig. Gofynnodd Cyng Geraint Morgans a oedd hyn yn golygu y byddai rhaid i'r Cyng J P Roberts (Cyngor Gwynedd) adael yr ystafell, ac eglurwyd gan y Cadeirydd Hedd Pugh os oedd y cyfarfod yn un caeedig, yna dylai fod yn gaeedig i Gynghorwyr Cymuned Mawddwy yn unig, ac y dylai y Cyng John P Roberts adael yr ystafell. Ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan Rhys Davies, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, penderfynwyd yn ffurfiol i wneud y rhan nesaf yma yn gaeedig. Cadarnhawyd mai y cyfiawnhad am hyn oedd sensitifrwydd y mater, a natur gyfrinachol y mater dan sylw. Ni fyddai budd cyhoeddus i drafod hyn yn agored, ac yn sicr ni fyddai yn deg nac yn gwyir i'r Cynghorydd dan sylw. Yn dilyn hyn, gadawodd y Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) yr ystafell.

Yn dilyn y drafodaeth mewn cyfarfod caeedig, aethpwyd ymlaen gyda gweddill gwaith y Cyngor. Gwahoddwyd Cyng John P Roberts i ail-ymuno a'r cyfarfod, ond nid oedd yn bresennol tu allan yr ystafell.

b) Roedd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn a llenwi biniau halen eleni, ac roedd hyn wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw. Adroddwyd fod y mwyafrif yn llawn, ac addawodd Cyng Geraint Morgans y byddai yn cysylltu gyda'r Clerc ynglyn a sefyllfa Mallwyd.

c) Roedd llythyr gan y Parc Cenedlaethol yn rhoi gwybodaeth am swydd wag ar gyfer Aelod o'r Awdurdod a benodir gan Lywodraeth Cymru.

- d) Adroddwyd am ymgynghoriad am gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr Cymuned a oedd wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw ynglyn a trefniadau 2022-23. Ar gynnis Geraint Morgans a'i eilio gan Catrin Jones gwelwyd y dylid gadael y sefyllfa yma fel ag y mae ar hyn o bryd, sef os oedd Cynghorydd am hawlio, yna roedd hawl ganddo wneud hyn.
- e) Cyfeiriwyd at ohebiaeth gan Lindsey Ellis, Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau yn amlilennu y prosiect Ein Hardal ni- Dolgellau 2035. Roedd cynnis ganddi i wneud cyfarfod rhithiol i drafod hyn, ac enwebwyd Catrin, Rhys a Sion i fod yn rhan ohono.
- f) Nodwyd ohebiaeth gan Andrea Smith a oedd yn amgau arolwg ecolegol o fynwent Eglwys Mallwyd. Penderfynwyd peidio rhoi unrhyw sylwadau ar hyn, a gofynwyd hefyd pa hawl oedd i wneud y gwaith heb ymholi i ddechrau gyda'r Cyngor Cymuned.
- g) Cyfeiriwyd yn fyr at y prosiect Trywydd Iach- sy'n hybu cymunedau i fod yn weithgar yn yr awyr agored.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Trafodwyd y trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig eleni o flaen y Neuadd, a chytunwyd i gael coeden fel arfer a gofyn i Geraint Gwanas. Penderfynwyd y dylid ei chael wedi ei chodi erbyn yr 20fed o Dachwedd, a byddai'r Cadeirydd y Cyng Hedd Pugh yn cysylltu gyda phawb i gael cymorth i'w chodi.
- b) Cyfeiriodd y Cyng Arfon Hughes at y gwybodaeth am hyfforddiant a oedd yn cael ei gylchredeg gan y Clerc, ac awgrymodd y dylai'r Cynghorwyr newydd gymryd mantais o beth sydd ar gael.
- c) Roedd angen arwydd newydd ym mynwent Mallwyd.
- d) Roedd angen gwybod y diweddaraf gyda'r llwybr i lawr o'r gofgolofn i Minllyn, lle roedd coed wedi tyfu trosto.
- e) Adroddwyd am engraifft o lori cyflenwi llaeth i'r ysgol wedi cyrraedd ar adeg yr oedd y plant yn mynd i'r ysgol, ac wedi achosi anhwylostod mawr i rieni oedd yn dod a phlant i'r ysgol yr adeg hynny. Roedd angen cadw golwg ar y sefyllfa.
- f) Adroddwyd am engreiffiau o oedi afresymol cyn cael ambiwlans i rai achosion yn yr ardal yn ddiweddar. Tra nad oedd unigolion ar fai, roedd yn sicr fai ar y trefniantadau, ac roedd angen tynnu sylw i hyn. Gwelwyd mai dwyn sylw y Cyngor Iechyd Cymuned fyddai orau, a chopio ein Haelod Senedd Cymru a San Steffan i mewn i'r gobebiaeth.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
8fed Rhagfyr 2021, 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.10yh.